# Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

## Adroddiad Blynyddol

2021 – 2022

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd U
Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywde
agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monit
CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGon
Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tr
Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agore
Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro
CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGon
Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tr
Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agore
Gwella CyfranogiGonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cynnwys

1. Cyflwyniad ... 4
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2021/22 ... 4
2.1 Nifer y Cyfarfodydd ... 4
2.2 Y Flaenraglen Waith ... 4
2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ... 5
2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ... 6
2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion ... 7
2.6 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) (2020-21) ... 7
2.7 Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd - Adroddiad Blynyddol 2020/21 ... 7
2.8 Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl ... 7
2.9 Diweddariadau Covid 19 ... 7
2.10 Adroddiad Diweddaru ar Iechyd Meddwl ... 7
2.11 Gofal Cartref, y Gweithlu Gwaith Cymdeithasol a Phwysau ar y Farchnad 8
2.12 Adroddiadau Ychwanegol a Gwybodaeth y Gofynnwyd Amdani ... 8
3. Gweithgarwch Craffu Arall ... 8
3.1 Gorchwyl a Gorffen ... 8
3.2 Sesiynau Datblygu ... 9
3.3 Ymweliadau Safle ... 10
4. Heriau ... 10
5. Gwaith yn y Dyfodol ... 10
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu ... 11
7. Presenoldeb ... 12

## Rhagair y Cadeirydd



Wrth baratoi rhagair i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ar gyfer y flwyddyn Mai 2021 - Ebrill 2022, y brif her a wynebai'r Adran oedd delio ag effaith Covid sydd wedi para dros ddwy flynedd. Yn ystod y cyfyngiadau symud wynebodd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol heriau anhygoel wrth gefnogi ein Cartrefi Gofal a sicrhau y gallai gwasanaethau hanfodol barhau ar gyfer pobl oedrannus a thrigolion bregus ein Sir. Llwyddom i ddatblygu cynlluniau brys i ddelio ag argyfwng digynsail ac rydym yn ddyledus i swyddogion a staff am ymateb mor gyflym i'r problemau dwys a wynebai'r adran.

Yn ystod yr argyfwng Covid cafodd y berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd ei chryfhau wrth i'r ddau sefydliad weithio gyda'i gilydd i agor tri "Ysbyty Maes" o fewn ein Canolfannau Hamdden a'n Canolfannau Chwaraeon i ofalu'n benodol am gleifion Covid. Fel Pwyllgor rydym am dalu teyrnged i holl weithwyr y Sir am ymateb mor gadarnhaol, am eu gwaith diflino ac am eu hymroddiad mewn amgylchiadau hynod o anodd. Gwirfoddolodd nifer o staff ble bynnag yr oedd eu hangen i ddiogelu gwasanaethau hanfodol, ac rydym yn diolch iddynt am eu parodrwydd i fynd yr ail filltir i sicrhau gofal o'r safon uchaf hyd yn oed yng nghanol pandemig.

Yn ôl yr arfer, bu'r Pwyllgor yn trafod ystod eang o adroddiadau gan gynnwys Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf, Adroddiadau Perfformiad Strategaeth, Adroddiadau ynghylch Gofalwyr Di-dâl a Diogelu Oedolion. Cafwyd hefyd ddiweddariadau rheolaidd ar effaith Covid ar ein gwasanaethau.

Mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion paratowyd blaenraglen waith gyda chyfle i holl aelodau'r Pwyllgor gyfrannu wrth i'r rhaglen gael ei hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i hyrwyddo arferion cydweithio gyda'n partneriaid a chyda'r sector gwirfoddol. Drwy gydweithio gallwn gyflawni cymaint mwy a sicrhau gwasanaethau o'r safon orau er lles pobl ein Sir.

Er mwyn lleihau lledaeniad Covid roedd llawer o staff y Cyngor yn gweithio adref a chynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor ar ffurf rithwir gan nad oedd modd cyfarfod wyneb yn wyneb. Rydym yn diolch i'r Adran Technoleg Gwybodaeth am baratoi hyfforddiant ac am sicrhau bod yr adnoddau ar gael i gynnal gwasanaeth rhithwir. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn awr ar gael drwy gyfrwng Gweddarlledu, sydd yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd ddilyn y trafodaethau yn fyw neu yn ystod y chwe mis sy'n dilyn. Yn ystod y flwyddyn o fis Mai 2021 i fis Ebrill 2022, cafodd

cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd eu gweld gan 226 o bobl trwy gyfrwng darpariaeth we-ddarlledu.

Oherwydd y cyfyngiadau Covid ni fu'n bosibl, fel fyddai'n arferol, i aelodau'r Pwyllgor fynd allan i'n cymunedau i ymweld â gwahanol sefydliadau, siarad â gweithwyr rheng flaen a chwrdd â defnyddwyr ein gwasanaethau. Bu'n rhaid i waith y Grŵp "Gorchwyl a Gorffen" gael ei ohirio hefyd, sef edrych ar sut i leihau achosion o hunanladdiad yn y Sir. Rwyf yn gobeithio y bydd y gwaith pwysig hwn yn gallu ailgychwyn yn ystod tymor nesaf y Cyngor.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau am eu presenoldeb ffyddlon yn ein cyfarfodydd rhithiol ac am eu cyfraniadau gwerthfawr yn ystod ein trafodaethau. Diolch arbennig i'm His-gadeirydd, y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies am ei gymorth parod ac i'r Cynghorydd Jane Tremlett, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd am fynychu ein cyfarfodydd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn i Emma Bryer, ein Swyddog Gwasanaethau Democrataidd am ei holl waith paratoi o flaen llaw ac am sicrhau bod ein cyfarfodydd rhithwir yn rhedeg yn ddidrafferth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Emma am fod mor barod i gefnogi aelodau'r Pwyllgor bob amser. Diolch hefyd i holl Swyddogion y Cyngor a fynychodd ein cyfarfodydd - mae eu cyfraniadau, a'u cyngor bob amser yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn. Hoffem ddiolch hefyd i'n Swyddogion a'n Staff am eu holl waith diflino i sicrhau bod trigolion y Sir yn parhau i dderbyn gwasanaethau o'r safon orau hyd yn oed yn ystod blwyddyn anarferol o anodd. Diolch yn fawr iawn i chi.

Wrth i ni symud ymlaen i flwyddyn gyngor newydd mae'n gyfnod ansicr, a'r disgwyl yw y bydd y galw am wasanaethau cymdeithasol yn parhau i gynyddu. Rydym yn wynebu heriau'r dyfodol yn hyderus, rhaid i ni fod yn barod i fentro a gweithio'n hyblyg er mwyn cryfhau ein gwasanaethau a sicrhau bod pobl ein Sir yn parhau i gael mynediad at ofal o'r safon uchaf.

Y Cynghorydd Gwyneth Thomas
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl bwyllgorau craffu "*baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.*"

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22. Mae'n caniatáu i Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gwyneth Thomas ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

## 2. Trosolwg o waith y Pwyllgor yn 2021/22

### 2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu chwe chyfarfod ffurfiol ym mlwyddyn y Cyngor 2021/22. Cafodd y cyfarfod oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth ei ganslo gan nad oedd adroddiadau ar gael a chafodd cyfarfod mis Ebrill ei ganslo oherwydd bod yr etholiadau'n cael eu cynnal ym mis Mai.

### 2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn llunio ei Flaenraglen Waith ei hun. Ymgynghorodd y Pwyllgor â'r swyddogion i nodi eitemau a fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd hyn yn golygu cynnwys eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad, cyllideb a chynlluniau gweithredu. Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith; fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch nifer yr adroddiadau nas cyflwynwyd. Ni chyflwynwyd cyfanswm o 16 o adroddiadau, a effeithiodd ar bump o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ac a arweiniodd at ganslo un cyfarfod.

Yn sgil ffurfio cysyniad y Flaenraglen Waith, ei datblygu a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob Pwyllgor Craffu benderfynu ar ei agenda ei hun. Mae budd y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r dadlau a'r drafodaeth yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Dyma gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd:

- Gofal Cymdeithasol - gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion gan gynnwys Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Diogelu
- Iechyd Meddwl;
- Gwasanaethau Integredig - Iechyd

## 2.3 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a’r swyddogaethau a ddaw o fewn ei gylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2020/21 - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Gorffennaf 2021 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2020/21, a oedd yn cynnwys trosolwg ar berfformiad ac adroddiadau ynghylch cynnydd pob un o'r 13 amcan llesiant. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y tri amcan oedd yn berthnasol i'r Swyddogaeth Graffu ar Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, sef:

- **Amcan Llesiant 9** - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel
- **Amcan Llesiant 10 -** Cefnogi'r nifer gynyddol o bobl hŷn i gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.
- **Amcan Llesiant 11 -** Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 - Mae'n ofynnol yn statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol adrodd yn flynyddol wrth y Cyngor ar berfformiad yr ystod gyfan o Wasanaethau Cymdeithasol a'r modd y cânt eu darparu, yn ogystal â chynlluniau ar gyfer eu gwella. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

Canlyniadau

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Awdurdod gysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ystyried adolygiad o'r materion a brofwyd mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol fod sylwadau wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, a'u safiad hwy oedd i fod yn rhan o adolygiad COVID ledled y DU ar hyn o bryd.

Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2022 - 2023 - Ym mis Ionawr bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Busnes Drafft yr Adran Cymunedau 2022 - 2023 a oedd yn manylu ar nodau, amcanion a blaenoriaethau'r adran yn ystod 2022-23. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellir ar gyfer yr adran a gwneud sylwadau yn eu cylch. Roedd elfennau'r cynllun busnes y nodwyd eu bod yn berthnasol i'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel (Cartrefi Gofal), Comisiynu a Chymorth Busnes, Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig.

Adroddiadau Perfformiad 2020/21 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu hwn – Ym mis Hydref 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad perfformiad a fanylai ynghylch cynnydd y canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r 13 amcan llesiant fel yr oeddent ar ddiwedd *Chwarter 1*. Cafodd adroddiad Chwarter 2 ei ystyried yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2021.

Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau - Yn ystod blwyddyn y cyngor gwneir sawl cais am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl o graffu. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor sy'n darparu diweddariad ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Hydref a mis Ionawr. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Yn ogystal â'r adroddiadau a nodwyd uchod derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau Monitro'r Gyllideb drwy e-bost ym mis Mai a mis Tachwedd.

Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022-2023 i 2024-2025- Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2022-2023 i 2024-2025. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2022/23, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023/24 a 2024/2025.

## 2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Roedd y Pwyllgor i fod i ystyried yr adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ym mis Hydref a mis Mawrth. Fodd bynnag, ar gais y Prif Weithredwr cyfunwyd yr adroddiad gyda'r Adroddiad Blynyddol.

## 2.6 Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) (2020-21)

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd a roddai wybodaeth am rôl, swyddogaethau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran Diogelu Oedolion a goblygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

| Canlyniadau |
| --- |
| Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ynglŷn â Thrais Domestig yn ystod y Sesiwn Ddatblygu ym mis Mawrth 2022. |

## 2.7 Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd - Adroddiad Blynyddol 2020/21

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf, a oedd, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.

## 2.8 Gwasanaethau a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc sydd â Phroblemau Iechyd Meddwl

Roedd y Pwyllgor i fod i ystyried yr adroddiad uchod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, ond cafodd hyn ei ohirio tan fis Mawrth 2022. Ym mis Mawrth derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar yn ystod sesiwn ddatblygu gyffredinol ar Iechyd Meddwl.

## 2.9 Diweddariadau COVID-2.9

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2021, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am effaith COVID-19 ar Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn cynnwys datganiad sefyllfa ynghylch sut roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn cael eu cynnal ac roedd yn tynnu sylw at y galw a'r pwysau oedd yn dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig

## 2.10 Adroddiad Diweddaru ar Iechyd Meddwl

Yn ei gyfarfod ym mis Mai 2021, derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddaru ar Iechyd Meddwl. Roedd hwn yn rhoi datganiad sefyllfa ynghylch effaith y pandemig ar iechyd meddwl a llesiant ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau'r gwasanaeth a datblygiadau ar gyfer y dyfodol. Roedd disgwyl adroddiad

pellach ym mis Mawrth 2022 ond yn hytrach cytunodd y pwyllgor i gael diweddariad ar lafar yn ystod y sesiwn ddatblygu.

| Canlyniadau |
| --- |
| Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ar Awtistiaeth. Roedd disgwyl i hyn gael ei dderbyn ym mis Ionawr ond cafodd ei ohirio tan fis Mawrth. Roedd adroddiad arall nas cyflwynwyd ym mis Mawrth oherwydd cyfyngiadau staffio, felly nid oedd y Pwyllgor yn gallu ystyried yr adroddiad diweddaru yn ystod y flwyddyn gyngor hon. |

### 2.11 Gofal Cartref, y Gweithlu Gwaith Cymdeithasol a Phwysau ar y Farchnad

Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2021, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a fanylai ar bwysau cyfredol ar y farchnad yn y sector gofal cartref a'r effaith ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin. Roedd yn manylu ar bwysau ar y gweithlu Gweithwyr Cymdeithasol a oedd yn effeithio ar y gallu i ateb y galw gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ar gyfer y farchnad gofal cartref mewnol a gofal cartref a gomisiynir yn ogystal â'r pwysau ar y system, ac roedd yn manylu ar y camau gweithredu i liniaru risgiau i sicrhau bod y gofynion statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu bodloni.

### 2.12 Adroddiadau Ychwanegol a Gwybodaeth y Gofynnwyd Amdani

Yn ystod y flwyddyn, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiadau ynghylch y meysydd canlynol i gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith:-

- Adroddiad Awtistiaeth – Roedd adroddiadau nas cyflwynwyd ym mis Ionawr a mis Mawrth. I'w ystyried y flwyddyn gyngor nesaf.
- Trais Domestig – Sesiwn Ddatblygu mis Mawrth

## 3. Gweithgarwch Craffu Arall

### 3.1 Gorchwyl a Gorffen

**"Adolygiad o Effaith Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin"**

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn wedyn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Gorffennaf a chafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad yn ystod ei gyfarfod ym mis Ionawr. Nodwyd bod y pandemig wedi rhwystro cynnydd gan mai'r flaenoriaeth oedd cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau gweithredol i sicrhau bod anghenion gofal

cymdeithasol yn cael eu diwallu yn ogystal â diogelu'r boblogaeth rhag niwed gan Covid. Roedd rhai camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unigrwydd ac roedd y Strwythur Gwasanaeth Integredig newydd yn y broses o gael ei gwblhau. Fel rhan o'r ailstrwythuro, byddai swydd newydd yn cael ei chreu a fyddai'n arwain y gwaith o weithredu ymhellach yr argymhellion sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad.

**"Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin"**

Yn Rhag-gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Medi 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i nifer o awgrymiadau posibl a chytunwyd i gynnal adolygiad Gorchwyl a Gorffen ynghylch Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin. Roedd aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Gwyneth Thomas (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Ieuan Davies (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorydd Emlyn Schiavone
- Y Cynghorydd Dorian Williams
- Y Cynghorydd Louvain Roberts
- Y Cynghorydd Ken Lloyd
- Y Cynghorydd Amanda Fox

Yn ystod sesiwn Datblygu Blaengynllunio ar 7 Ebrill 2021, gofynnodd y Pwyllgor i'r grŵp Gorchwyl a Gorffen adolygu cwmpas y gwaith. Oherwydd sawl ffactor gan gynnwys cyfyngiadau ar adnoddau, amserlenni, a'r etholiadau sydd ar y gorwel cafodd hyn ei ohirio - nodwyd hefyd bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud gan yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru gyda golwg ar ymyrraeth ac atal hunanladdiadau.

## 3.2 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2021/22, a chafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd iddynt:-

- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2021
- Adeiladau Hanesyddol ac Ymrwymiad Carbon Sero Net Sir Gaerfyrddin (Mai 2021)
- Yr Economi Gylchol ac Effeithlonrwydd Adnoddau (Mehefin 2021)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Sesiwn Briffio Covid (Medi 2021)
- Seminar Gwasanaethau Cynllunio (Medi 2021)
- Gweithdy Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Hydref 2021)
- Sesiwn Briffio Ffosffadau'r Gwasanaeth Cynllunio (Tachwedd 2021)
- Digwyddiad Cysylltedd Digidol (Ionawr 2022)

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

Cafodd y Pwyllgor hefyd y diweddariadau / cyflwyniadau canlynol a oedd yn benodol i'r Pwyllgor Craffu mewn cyfarfodydd datblygu yn ystod y flwyddyn. Gofynnwyd am lawer o'r eitemau hyn ar ôl craffu ar adroddiadau:-

- Dull cyffredinol o gefnogi rhyddhau o'r ysbyty (Mai)
- Gwasanaethau Dydd a Gwasanaeth Seibiant (Gorffennaf)
- Trosolwg o ddarpariaeth Llesiant Delta a'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Gorffennaf)
- Lleoliad Cysylltu Bywydau (Rhagfyr)
- Trais Domestig (Mawrth)
- Diweddariad Iechyd Meddwl (Mawrth)

### 3.3 Ymweliadau Safle

Oherwydd y cyfyngiadau Covid parhaus, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle.

## 4. Heriau

Fel yn achos y flwyddyn flaenorol oherwydd Covid, bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod heriol i'r Awdurdod ac mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn adeiladol yn ei rôl o graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau. Rhoddwyd pwysau sylweddol ar faes Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod y pandemig Coronafeirws, ond perfformiodd pawb y tu hwnt i'r disgwyliadau i sicrhau bod y trigolion yn derbyn gofal da.

Mae'r Pwyllgor Craffu hefyd wedi gweld cynnydd yn y diffyg cyflwyniadau a gafwyd eleni gyda chyfanswm o 16 o adroddiadau heb eu cyflwyno. Mae hyn wedi cael effaith amlwg ar y Flaenraglen Waith gyda nifer uchel o adroddiadau yn cael eu cyflwyno mewn rhai cyfarfodydd ac arweiniodd at ganslo'r cyfarfod terfynol ym mis Mawrth.

## 5. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gyflawni proses fwy syml o graffu, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r manteision o gynnal rhag-gyfarfodydd.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenraglen Waith sydd wedi'i hamserlennu ar gyfer 15 Mehefin 2022. Bydd y Flaenraglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Cabinet.

## 6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae’r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a’r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae’r cymorth a roddir i’r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cabinet a rhai nad ydynt yn aelodau o Gabinet y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad y blaenraglenni gwaith Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: [www.sirgar.llyw.cymru/craffu](www.sirgar.llyw.cymru/craffu)

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

## 7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod blwyddyn gyngor 2021/22 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 6 chyfarfod rhwng 1 Mai 2021 a 30 Ebrill 2022. Yn ystod yr un cyfnod cynhaliwyd 4 cyfarfod datblygu.

| Aelod y Pwyllgor Craffu | Nifer y cyfarfodydd Craffu a fynychwyd | % | Nifer y Sesiynau Datblygu a fynychwyd | % |
|---|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sue Allen | 5 | 83% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Kim Broom | 6 | 100% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies | 5 | 83% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Karen Davies | 5 | 83% | 2 | 50% |
| Y Cynghorydd Rob Evans | 4 | 67% | 1 | 25% |
| Y Cynghorydd Tyssul Evans | 5 | 83% | 3 | 75% |
| Y Cynghorydd Amanda Fox (ymddiswyddodd 14/07/21) | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 5 | 83% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Ken Lloyd | 6 | 100% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Kevin Madge | 5 | 83% | 2 | 50% |
| Y Cynghorydd Louvain Roberts | 1 | 16% | 0 | 0% |
| Y Cynghorydd Emlyn Schiavone | 5 | 83% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Bill Thomas (Penodwyd 14/07/21) | 4 | 100% | 1 | 50% |
| Y Cynghorydd Gwyneth Thomas | 6 | 100% | 4 | 100% |
| Y Cynghorydd Dorian Williams | 5 | 83% | 2 | 50% |
| **Dirprwyon** | **Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd** | | | |
| Y Cynghorydd Deryk Cundy | 1 | | | |
| Y Cynghorydd John James | 1 | | | |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Dai Nicholas | 1 |
| Y Cynghorydd Bill Thomas<br>(Cyn ei benodi) | 1 |
| Y Cynghorydd Dai Thomas | 1 |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | 1 |

| Aelodau'r Cabinet | Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd |
| --- | --- |
| Y Cynghorydd Jane Tremlett | 4 |
| Y Cynghorydd Linda D. Evans | 0 |
| Y Cynghorydd David Jenkins | 1 |
| Y Cynghorydd Mair Stephens | 1 |